# Datblygu Clwstwr Carlam
# Rôl Grwpiau Cydweithredol Proffesiynol

## 1. Disgrifiad o’r sefyllfa bresennol

**"Llinell olwg gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i Grwpiau Cydweithredol Proffesiynol"**

Roedd Gosod y Cyfeiriad[1] (Rhaglen Cyflawni Strategol Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol 2010) yn disgrifio’r materion a'r heriau a oedd yn cael eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal lleol bryd hynny a'r camau oedd eu hangen i greu gwasanaethau iechyd o'r radd flaenaf yng Nghymru. Ymateb Llywodraeth Cymru - Cynllun Gofal Sylfaenol i Gymru (2015-2018)[2] oedd ceisio moderneiddio gwasanaethau gofal sylfaenol gyda phwyslais ar gydgynhyrchu – y gydnabyddiaeth y ceir y canlyniadau iechyd gorau pan fo cyfraniad cleifion yn ogystal ag ymarferwyr ei nodi a'i roi ar waith. Gwnaed cynnydd sylweddol ac mae'r gwaith hwn yn parhau yn Cymru Iachach (2018)[3], cynllun y Llywodraeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, sydd â’r nod o:

- Darparu gwasanaethau cydlynol gan ddefnyddio un cofnod digidol
- Symud gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty i gymunedau gan ganolbwyntio’n fwy ar atal
- Gwella o ran mesur beth sy'n wirioneddol bwysig i bobl
- Gwneud Cymru'n lle gwych i weithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- Gwneud i wasanaethau weithio fel un system - gydag ymgysylltiad proffesiynol cryfach ac arweinyddiaeth glinigol.

Lluniwyd y Rhaglen Strategol Gofal Sylfaenol (RhSGS)[4] yn 2018 ac mae'n un o'r 3 rhaglen Genedlaethol ynghyd â Gofal Cynlluniedig a Gofal Brys ac Argyfwng. Mae’r RhSGS yn rhaglen a arweinir gan Fwrdd Iechyd Cymru Gyfan sy'n gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac sy'n ymateb i Gymru Iachach. Nod y rhaglen yw dwyn ynghyd a datblygu'r holl strategaethau ac adolygiadau gofal sylfaenol blaenorol yn gyflymach, wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu a Blaenoriaethau Gweinidogol ddiweddar wedi atgyfnerthu'r ymrwymiad i'r gwaith hwn, gan gynnwys cyflwyno Model Gofal Sylfaenol Cymru (MGSC)[5] a ffocws parhaus ar yr ôl troed lleol ar gyfer trefniadaeth gwasanaethau trwy weithio yn y Clwstwr.

---

[1] setting the direction.pdf (wales.nhs.uk)
[2] our plan for primary care in wales up to march 2018.pdf
[3] Llywodraeth Cymru, Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, 2018
[4] Rhaglen Strategol - Gofal Sylfaenol Un (nhs.wales)
[5] Disgrifiad ysgrifenedig Model Gofal Sylfaenol i Gymru Ebrill 2019 (Eng).pdf

Mae’r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol (2021)[6] yn pwysleisio bod rhaid blaenoriaethu cynllunio ar gyfer anghenion y boblogaeth dros fuddiannau sefydliadol a chyrraedd y tu hwnt i gyfyngiadau ffiniau sefydliadol. Mae'r Fframwaith yn nodi system iechyd sy'n cael ei chydlynu'n genedlaethol ac a gyflwynir yn lleol drwy gydweithio rhwng sefydliadau iechyd a phartneriaid.

## 2. Arweinyddiaeth Strategol

Sefydlwyd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel rhan o **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**[7] . Mae Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i reoli a datblygu gwasanaethau i sicrhau cynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth. Mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd sicrhau gwasanaethau effeithiol, a bod gofal a chymorth yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion eu poblogaeth yn y ffordd orau. Amcan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw sicrhau bod cyrff partneriaeth yn cydweithio'n effeithiol i:

- Ymateb i asesiad o’r boblogaeth a gynhaliwyd yn unol ag adran 14 y Ddeddf
- Datblygu, cyhoeddi a gweithredu'r Cynlluniau Ardal ar gyfer pob rhanbarth a gwmpesir fel sy'n ofynnol o dan adran 14A y Ddeddf
- Sicrhau bod cyrff partneriaeth yn darparu digon o adnoddau ar gyfer trefniadau’r bartneriaeth yn unol â’u pwerau dan adran 167 y Ddeddf;
- Hyrwyddo'r broses o sefydlu cronfeydd cyfun lle bo hynny’n briodol.

Bydd angen hefyd i’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol flaenoriaethu integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â:

- Phobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- Pobl sydd ag anableddau dysgu.
- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd.
- Plant ag anghenion cymhleth yn sgil anabledd neu afiechyd.

## 3. Asesiad Anghenion y Boblogaeth

Mae'r AAB yn nodi anghenion iechyd, gofal a chymorth y boblogaeth a dyma'r sylfaen ar gyfer cynllunio a chomisiynu'r BPRh. Dylai'r AAB lywio’r broses o gynllunio a gwneud penderfyniadau yn y rhanbarth trwy sail dystiolaeth ddibynadwy, glir a phenodol o anghenion a mapio'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd. Rhaid i hyn gael ei lywio gan brofiad defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol sydd â phrofiad o'r heriau sydd ynghlwm wrth we-lywio trwy systemau lleol.

Mae AAB yn sbardun hanfodol ar gyfer y gwaith hwn o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae dealltwriaeth glir o angen yn nodi anghydraddoldebau iechyd a dylai arwain

[6] Fframwaith glinigol cenedlaethol: system ddysgu iechyd a gofal | LLYW.CYMRU

[7] Deddf-gwaashau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-act-2014-gwybodaeth hanfodol.pdf (llyw.cymru)

camau gweithredu i sicrhau darpariaeth gwasanaeth tecach ac effeithiol. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dwyn ynghyd bartneriaid strategol (Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector) i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn eu hardal. Rhaid bod 'llinell olwg' glir rhwng y BPRh a darparwyr gwasanaethau rheng flaen, gyda dealltwriaeth gyffredin o angen wedi'i llywio gan ffynonellau data a dadansoddiadau o ansawdd uchel ar bob lefel o weithrediad daearyddol (rhanbarthol, bwrdd iechyd, sir a chlwstwr) ac ar gyfer materion thematig.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithredu ar draws tirwedd bartneriaethau eang ac maent yn cadw hyblygrwydd o ran sut maent yn trefnu eu hunain a'u gwaith, gan gynnwys y rhyngwyneb â strwythurau partneriaeth eraill fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chlystyrau Gofal Sylfaenol. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol egluro a chytuno ar feysydd cyfrifoldeb a, lle bo'n bosibl, gydlynu ac osgoi dyblygu gwaith.

## 4. Strwythurau Lleol ar gyfer cynllunio a darparu

Cyflwynwyd trefniadau clwstwr yn 2010 i ddarparu'r ôl troed lleol ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan sicrhau bod profiad y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol yn y meysydd hyn yn cael ei gydnabod ac yn llywio datblygiad gwasanaethau i wella iechyd a lles y boblogaeth a darparu gwasanaethau iechyd a gofal. O 2022 bydd swyddogaeth gynllunio gryfach (trwy Grwpiau Cynllunio Clwstwr Cyfan) a gefnogir gan strwythurau cynghori proffesiynol wedi'u trefnu.

Mae'r rhaglen Datblygiad Clwstwr Carlam (DCC) yn cynnig datblygu rhwydweithiau Grwpiau Cydweithredol Proffesiynol ar gyfer pob un o'r grwpiau contractwyr annibynnol. Bydd y rhain yn ategu gwaith parhaus i ymgysylltu â gwybodaeth ac arbenigedd y gweithlu Nyrsio a Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a gwasanaethau gofal iechyd meddwl yn y gymuned. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gael gwybodaeth leol fanwl trwy'r strwythurau hyn (o adborth cyhoeddus, defnyddwyr gwasanaeth a phroffesiynol). Dylid annog rhwydweithiau Grwpiau Cydweithredol Proffesiynol hefyd i gynnig atebion a fydd yn effeithiol yn y cyd-destun lleol.

Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod yr AAB Rhanbarthol yn cael ei ddatblygu i lywio dadansoddiad ar lefelau awdurdod lleol a chlwstwr. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sefydlu trefniadau hefyd i nodi gwybodaeth leol er mwyn llywio a dylanwadu ar y cynllun rhanbarthol.

## 5. Rôl Grwpiau Cydweithredol Proffesiynol

### 5.1 Gwella Iechyd a Lles y Boblogaeth

- Darparu dadansoddiad proffesiynol o'r AAB sy'n berthnasol i'r ardal gydweithredol
- Rhannu data perthnasol i lywio asesiad a gwelliant gwasanaethau’r boblogaeth leol
- Trwy ymgysylltu rhagweithiol, sicrhau bod profiad y cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol yn llywio’r AAB.

- Sicrhau bod asesiadau anghenion y boblogaeth leol yn cyfleu anghenion grwpiau sy'n agored i niwed a’r rhai ag anghenion arbennig

**5.2 Gwella Gwerth**

- Derbyn ac ystyried y Strategaeth Genedlaethol yng nghyd-destun profiad a blaenoriaethau lleol
- Rhoi cyngor ar weithredu lleol, gan gynnwys nodi cyfleoedd a risgiau
- Nodi lle mae angen cydweithio rhwng grwpiau proffesiynol i gyflawni'r asesiad a/neu'r ddarpariaeth orau ar gyfer y boblogaeth
- Darparu arweinyddiaeth glinigol ar gyfer datblygu a darparu llwybrau clinigol lleol
- Cydweithio â grwpiau proffesiynol eraill i wella gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed/y rhai ag anghenion penodol
- Sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol o fewn fframweithiau cyllideb ac ariannol dirprwyedig.

**5.3 Gwella Ansawdd a Diogelwch**

Cefnogi adolygiad rheolaidd o ddangosyddion ansawdd ar gyfer gwasanaethau lleol

- Cydweithio ar draws gwasanaethau i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer anghenion sy'n gofyn am fewnbwn aml-wasanaeth/proffesiynol
- Cefnogi trefniadau uwchgyfeirio i gynnal parhad a diogelwch gwasanaethau.

**5.4 Ymgysylltu â'r gweithlu lleol a’i ddatblygu**

- Nodi anghenion a blaenoriaethau'r gweithlu yn seiliedig ar asesiad anghenion y boblogaeth
- Cynghori ar atebion lleol i fynd i'r afael ag anghenion y gweithlu
- Gweithio gydag asiantaethau allanol i ddatblygu dulliau o wella recriwtio a chadw staff (BI, ALl, 3ydd sector, AaGIC, CBC)
- Rhoi cyngor ar ddatblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu
- Cefnogi lles y gweithlu.

## 6. Ymgysylltu statudol

Nid yw'r trefniadau hyn yn newid nac yn disodli rôl y pwyllgorau cyd-drafod statudol a'r ddyletswydd i Fyrddau Iechyd ymgynghori â'r cyrff hynny mewn unrhyw ffordd.